

P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy

Y Pwyllgor Deisebau | 4 Hydref 2021
Petitions Committee | 4 October 2021

Cyfeirnod: SR21/0634-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1183

Teitl y ddeiseb: Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy

Geiriad y ddeiseb: Diolch i'r Gweinidog Trafnidiaeth, mae gan Glan Conwy groesfan angenrheidiol i gerddwyr erbyn hyn ac mae gwelliannau diweddar i'r ffyrdd wedi cynyddu gweledd. Fodd bynnag, mae llawer o drigolion yn poeni am gyflymder cerbydau a gofnodwyd dros gyfnod o bythefnos gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, sef 32.8 milltir yr awr ar gyfartaledd. Mae'r groesfan yn cael ei defnyddio gan blant ysgol ac oedolion i gyrraedd safle bus a chyfleusterau chwaraeon lleol yn ogystal â bod yn rhan o lwybr seiclo. Mae llawer o adroddiadau wedi bod yn y cyfryngau am ddamweiniau a fu bron â digwydd a cherbydau yn peidio â stopio.

Un pryder penodol yw y gallai plant gredu eu bod yn ddiogel a chamu neu redeg allan i'r groesfan heb edrych. Bydd y tymor prysur yn yr haf pan fydd y twristiaid yn cyrraedd yn cynyddu'r perygl gan y bydd ymwelwyr yn anghyfarwydd â'r ffordd, yn ogystal â pheidio â thalu sylw o bosibl gan eu bod yn edmygu'r golygfeydd lleol.



I gloi, hoffai'r deisebwyr ddadlau bod 30 milltir yr awr yn rhy gyflym ar gyfer cyflwr y ffordd ar hyn o bryd ac maent yn gofyn i'r Gweinidog ystyried gostwng y terfyn cyflymder i 20 milltir yr awr yn agos at y groesfan.

Mewn gwrthdrawiad ar 30 milltir yr awr â cherddwr, y siawns o farwolaeth yw 25%, a'r siawns ar 20 milltir yr awr yw 2.5%, sy'n golygu ei fod 10 gwaith yn fwy diogel!

Byddai gosod terfyn o 20 milltir yr awr am 200 fetr yn ychwanegu ychydig eiliadau yn unig at amser taith, a byddai'n golygu ei bod yn llawer mwy diogel ac yn helpu i gael gwared ar bryderon rhieni, sy'n bwysig iawn.

1. Cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd a'r awdurdod traffig ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd lleol. Mae'r A470 yn rhan o [rwydwaith cefnffyrdd Cymru](#).

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda dau asiant cefnffyrdd, [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#) (SWTRA) ac [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#) (NMWTRA), i reoli, cynnal a gwella'r rhwydwaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am osod terfynau cyflymder ar gefnffyrdd yn unol â'i [chanllawiau cyfredol](#). Cawsant eu cyflwyno yn 2009 ac maent yn nodi y "gellir defnyddio terfynau cyflymder 20mya ar gefnffyrdd o dan amgylchiadau eithriadol, yn gyffredinol dros hydoedd byr ac am gyfnodau cyfyngedig yn ystod y dydd".

Yn gynnar yn 2021 [gwnaed gwaith](#) ar groesfan i gerddwyr ar ddarn o'r A470 yng Nglan Conwy. Y terfyn cyflymder ar y darn hwn o'r A470 yw 30mya ar hyn o bryd, ac mae'r deisebwyr yn galw am ei ostwng i 20mya, 100 metr bob ochr i'r groesfan.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 6 Medi, mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn amlinellu bod NMWTRA, yn dilyn adolygiad o'r adran hon o'r A470, wedi gwneud gwaith i dynnu sylw gyrrwyr at y groesfan i gerddwyr. Mae hefyd yn dynnu sylw at gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfyngiadau cyflymder 20mya.

Yn 2019 sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylai 20mya ddod yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl. Cyflwynodd y grŵp adroddiad ym mis Gorffennaf 2020. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y grŵp, gan gynnwys y dylid lleihau'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig (y rhai sydd â system o oleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd) o 30mya i 20mya.

Mae cam cyntaf y broses o gyflwyno terfyn 20mya diofyn wedi dechrau drwy gynlluniau peilot mewn wyth cymuned ledled Cymru i gasglu data cyn ei gyflwyno'n llawn yn 2023. Ym mis Medi 2021 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog gyllid parhaus ar gyfer y cynlluniau peilot hyn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgyngori ar y cynigion yn ddiweddar.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cyn gosod y groesfan i gerddwyr ar y darn hwn o'r A470, codwyd y mater mewn cwestiwn ysgrifenedig ym mis Mehefin 2018 gan Janet Finch-Saunders AS.

Ym mis Gorffennaf 2020 trafododd y Senedd y syniad o gyflwyno terfynau cyflymder 20mya diofyn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.